# GORWELION

## CANLLAWIAU

## 2019



THE NATIONAL LOTTERY BFI NETWORK DELIVERED BY ffilm CYMRU WALES

# CYFLWYNIAD

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilm yng Nghymru, ac mae'n bartner cyflawni cenedlaethol i RWYDWAITH BFI, sy'n dwyn ynghyd asiantaethau ffilm o bob rhan o'r DU i ddarganfod, datblygu a chyllido awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr newydd ac addawol. Mae ein gweithgarwch fel rhan o RWYDWAITH BFI Cymru yn ymwneud â chynorthwyo gwneuthurwyr ffilm ar y lefel hon sydd wedi'u geni yng Nghymru neu sy'n seiliedig yng Nghymru.

Mae Cronfa Gorwelion yn unigryw i RWYDWAITH BFI Cymru, ac mae'n dod o hyd i wneuthurwyr ffilm eithriadol sydd wedi'u geni yng Nghymru neu sy'n seiliedig yng Nghymru. Mae'r Gronfa'n cynnig cymorth wedi'i deilwra i feithrin eu prosiectau ffilm hir a/neu ddatblygu'u gyrfa broffesiynol. Dyfarnwn gymorth i ryw 8 o unigolion neu brosiectau ffilm hir bob blwyddyn. Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd pwynt allweddol yn natblygiad eu gyrfa broffesiynol, ac y mae arnynt angen hwb ymlaen i fynd â'u prosiect ffilm hir neu'u gyrfa i'r lefel nesaf.

Mae Ffilm Cymru yn ymrwymedig i hybu sector ffilm amrywiol a chynaliadwy sy'n gweithio i bawb ledled Cymru; gan roi lle canolog i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn. Eiriolwn entrepreneuriaeth a hyrwyddwn Safon BS8909, sy'n cefnogi diwydiant ffilm sy'n ecogyfeillgar.

# PWY ALL YMGEISIO?

Cewch wneud cais am gyllid Gorwelion tuag at ddatblygu gyrfa:

1. Os ydych yn awdur, cyfarwyddwr neu gynhyrchydd sydd wedi eich geni yng Nghymru neu sy'n seiliedig yng Nghymru;
2. Os ydych dros 18 oed a heb fod mewn addysg amser llawn;
3. Os nad ydych wedi bod yn awdur, cyfarwyddwr neu gynhyrchydd arweiniol ar ffilm hir sydd wedi'i chwblhau gyda chyllideb o dros £1 filiwn;
4. Os ydych yn awdur, cyfarwyddwr neu gynhyrchydd addawol (yn hytrach na newydd), sydd â phrofiad blaenorol ym myd ffilm neu ffurfiau celfyddydol eraill (e.e. teledu, theatr, ysgrifennu nofel, radio, cerddoriaeth, celf).

Cewch wneud cais am gyllid Gorwelion tuag at brosiect os ydych yn bodloni meini prawf 2-4 uchod ac:

5. Os ydych yn awdur, cyfarwyddwr neu gynhyrchydd ar brosiect sydd wedi eich geni yng Nghymru neu sy'n seiliedig yng Nghymru a/neu bod eich gan eich prosiect werth diwylliannol Cymreig sylweddol;
6. Os ydych yn arwain ar hyn o bryd ar y prosiect ac yn berchen ar, wedi sicrhau neu wedi derbyn dyfynbris am unrhyw hawliau gwaelodol i ddatblygu'r prosiect (e.e. nofel yr ydych yn ei haddasu).

Er enghraifft, gallai ymgeiswyr fod:

- Wedi datblygu ffilmiau hir sydd heb fynd ymlaen i gael eu cynhyrchu eto;
- Wedi cael ffilm hir wedi'i chynhyrchu a oedd wedi'i chyllido ei hun neu'n breifat gyda chyllideb o lai na £1 filiwn;
- Wedi cael credyd ar ffilm hir ond mewn rôl wahanol, fel cyd-awdur, cyd-gyfarwyddwr neu gyd-gynhyrchydd yn hytrach nag arwain ar y prosiect;
- Yn anelu i ail-lansio eu hunain yn y diwydiant yn dilyn toriad gyrfa;
- Wedi cael llwyddiant mewn ffurf gelfyddydol arall ond heb fod wedi denu cefnogaeth yn y diwydiant ffilm hyd yma.

# AM BA GYLLID Y GALLAF YMGEISIO?

Mae Gorwelion yn bodoli i gefnogi datblygiad gyrfa NEU i ddatblygu:

- Ffilmiau hir gweithredu byw, dogfen neu animeiddio;
- Ffilmiau uchelgeisiol a gwreiddiol sy'n annhebygol o gael eu hariannu'n llawn gan y sector masnachol a/neu;
- Ffilmiau sy'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd sydd wedi'u tangynrychioli mewn ffyrdd ddychmygus a dilys;
- Ffilmiau sy'n gymwys i gael eu hystyried yn ffilm o Brydain ;
- Ffilmiau sy'n gymwys i dderbyn tystysgrif BBFC nad yw'n fwy cyfyngedig na '18' yn y DU.

Mae Cronfa Gorwelion yn unigryw yn ei ffordd hyblyg o weithio – mae'n ymwneud â darparu'r cymorth gorau i chi a/neu eich prosiect, gan fynd i'r afael â'r hyn sydd ei angen i symud eich ffilm hir neu yrfa creu ffilmiau ymlaen i'r cam nesaf.

Dyma rai enghreifftiau o sut gall Cronfa Gorwelion eich helpu. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ac mae croeso i chi drafod neu awgrymu costau posibl eraill:

- Costau datblygu sgript e.e. talu ffioedd Golygydd neu Awdur Sgript
- Hyfforddi i ddatblygu sgiliau Cyfarwyddwyr, Awduron neu Gynhyrchwyr
- Mentoriaeth
- Costau i saethu rhagflas o ffilm, ffilm fer i brofi'r cysyniad neu mood reels
- Presenoldeb a/neu deithio i farchnad, gŵyl neu labordy talent NAD yw'n gymwys i dderbyn cymorth drwy gynllun Grant Teithio Labordai British Council.
- Rydym yn annog ymgeiswyr i ystyried ffynonellau eraill hefyd, e.e. Ymddiriedolaeth Ddarlledu Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a chymorth masnach y Llywodraeth.
- Gwasanaethau ymrestru criw o dan y llinell e.e. Cyfarwyddwr Castio, Cynhyrchydd Llinell, Cyfarwyddwr Ffotograffiaeth, Golygydd
- Marchnata a Chyhoeddusrwydd
- Strategaethau gwerthu neu ddosbarthu
- Ffioedd ymgynghori
- Cynnal gweithdai gydag actorion
- Gwasanaethau darllen sgript
- Arbenigedd traws-gyfryngol, aml-blatfform, traws-gelfyddydol, rheoli eiddo deallusol ac asedau

# AM FAINT Y GALLAF YMGEISIO?

Mae gennym £40,000 y flwyddyn i'w ddosbarthu drwy Gronfa Gorwelion; fel arfer rydym yn gwneud cyfanswm o rhwng 6 a 10 o ddyfarniadau i unigolion a phrosiectau.

- Fe allwch chi ymgeisio am hyd at fwyafswm o £6,000 tuag at ddatblygu gyrfa
- Fe allwch chi ymgeisio am hyd at fwyafswm o £10,000 tuag at brosiect ffilm unigol

Byddwch yn ymwybodol, oherwydd natur gystadleuol y gronfa, o bryd i'w gilydd rydym yn cynnig dyfarniadau sy'n llai na'r swm y gofynnwyd amdano.

# SUT YDW I'N GWNEUD CAIS?

Er mwyn gwneud cais am gyllid, bydd angen i chi lawrlwytho'r ffurflen gais berthnasol o'n gwefan:

Llenwch ffurflen Datblygu Gyrfa [LINK] os ydych yn gwneud cais am gymorth i ddatblygu eich gyrfa (e.e. labordy neu gwrs, neu i dderbyn gwasanaethau mentor).

Os ydych yn gwneud cais am gymorth tuag at brosiect penodol yn y dyfodol neu brawf cysyniad ar gyfer ffilm hir, defnyddiwch ffurflen Prosiect [LINK].

Mae'r ffurflen gais yn mynd â chi drwy gyfres o gwestiynau am eich prosiect, a fydd yn caniatáu inni ddeall yn well sut byddwch yn elwa o gyllid Gorwelion. Rydym yn derbyn llawer mwy o geisiadau na'r hyn y gallwn eu cynorthwyo, felly gwnewch yn siŵr eich bod wedi cyfathrebu eich sail resymegol i dderbyn cyllid yn glir yn eich ffurflen gais.

Ynghyd â'r ffurflen gais wedi'i llenwi, bydd gofyn i chi gyflwyno dogfennau ategol, fel:

- CVs yr ymgeisydd/ymgeiswyr a thîm y prosiect
- Enghreifftiau o waith blaenorol
- Sgript neu ymdriniaeth

Ni ystyrir bod eich cais yn gyflawn hyd nes bod yr holl eitemau y gofynnir amdanynt wedi'u derbyn.

Y ffordd orau i ni dderbyn dogfennau ategol yw ar ffurf un ddolen storio ar-lein (e.e. Dropbox neu Google Drive), a hynny wedi'i nodi yn y blwch priodol ar y ffurflen gais.

Nid oes rheidrwydd i Ffilm Cymru ddarllen nac ystyried dogfennau sy'n gysylltiedig â cheisiadau anghyflawn neu anghymwys, nac unrhyw ddogfennau na ofynnwyd amdanynt.

Cyn cyflwyno cais, rydym yn eich annog i gofrestru i fynd i un o'n cymorthfeydd talent misol i drafod eich cais.

Caiff ceisiadau eu hystyried fel y dônt i law a dylid eu cyflwyno i network@ffilmcymruwales.com.

# CAIS AM GYLLID

Cadwch y canlynol mewn cof wrth lenwi tudalen Cais am Gyllid yn eich ffurflen gais:

- Byddwn yn ariannu hyd at 100% o'ch costau hyd at fwyafswm o £6,000 tuag at ddatblygu gyrfa, neu £10,000 tuag at prosiect ffilm unigol.
- Mae cyllid 'prosiect' Gorwelion yn ad-daladwy o ddiwrnod cyntaf y brif ffotograffiaeth neu allan o elw net y ffilm os yw'r ffilm eisoes wedi bod drwy brif ffotograffiaeth ar y pwynt y gwneir y cais. Os ydych yn bwriadu gwneud ffilm hir ar gyllideb fach iawn, dylech sicrhau nad yw'r costau datblygu cyffredinol yn anghymesur â chyllideb y ffilm.
- Cewch geisio cyllid gan gyrff cyllido neu gyllidwyr eraill.
- Ni all Ffilm Cymru ddyfarnu cyllid yn ôl-weithredol (hynny yw, ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi neu weithgarwch sydd eisoes wedi digwydd).
- Dylai pob eitem llinell fod yn rhesymol. Ni allwn gefnogi teithio neu lety dosbarth cyntaf, er enghraifft. Serch hynny, dylech sicrhau bod holl weithwyr y prosiect yn derbyn o leiaf gyflog byw am eu hamser, oni bai bod sefydliad partner wedi cynnig adnoddau staff ichi fel cyfraniad mewn nwyddau.
- Gofynnwn ichi ddarparu cymaint â phosib o fanylion ar eich cyllideb arfaethedig. Er ein bod yn deall ei bod yn bosib

nad yw'r gyllideb yn orffenedig ar y cam hwn, mae'n bwysig inni wybod eich bod wedi rhoi ystyriaeth i hyfywedd y prosiect.

- Nid oes angen ichi ddarparu ffigurau yn erbyn pob eitem llinell sydd yn y gyllideb dempled. Caiff y rhain eu darparu fel awgrym o'r costau y gallwn wneud cais amdanynt.
- Fel arfer, byddwn yn disgwyl gweld elfennau o gyllid partneriaeth ar ffurf cyfraniad arian parod neu mewn nwyddau.

## MANYLION CYSWLLT

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn cyflwyno cais, cysylltwch â:

- **Alice Whittemore,** Rheolwr RHWYDWAITH BFI Cymru, alice@ffilmcymruwales.com
- **Gwenfair Hawkins**, Swyddog Gweithredol Datblygu, gwenfair@ffilmcymruwales.com

Os hoffech gael gwybod am gynlluniau cyllido, digwyddiadau hyfforddi a chyfleoedd eraill gan Ffilm Cymru yn y dyfodol, cofrestrwch ar ein rhestr bostio ar ein gwefan.

## BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I MI GYFLWYNO FY NGHAIS?

Byddwch yn derbyn e-bost o gadarnhad o fewn un wythnos i ddyddiad cau'r cais. Bydd yr e-bost yn rhoi cyfeirnod ichi a dolen i'n ffurflen monitro amrywiaeth. Rhaid i bob aelod o dîm eich prosiect lenwi'r ffurflen cyn y bydd modd asesu eich cais. Mae dewis 'gwell gen i beidio â dweud' ar gyfer pob cwestiwn.

Os yw eich cais yn anghyflawn neu'n anghymwys, byddwn yn rhoi gwybod ichi nad yw eich cais wedi mynd yn ei flaen i'r cam asesu. Os yw eich cais yn anghyflawn yn sgil gwallau, byddwn yn rhoi amser ichi gywiro unrhyw wallau cyn i'r cais fynd ymlaen i'r cam asesu. Efallai y byddwn yn gofyn ichi am wybodaeth neu ddeunyddiau pellach.

Os yw eich cais am gyllid yn gyflawn, yn unol â'r meini prawf uchod, bydd wedyn yn mynd ymlaen i'r cam asesu.

## ASESU

Caiff ceisiadau eu hasesu gan banel o o leiaf 3 aelod o adran Datblygu, Cynhyrchu a Sgiliau Ffilm Cymru, gan gynnwys Rheolwr RHWYDWAITH BFI Cymru. Gallai aseswyr allanol gael eu defnyddio yn dibynnu ar natur a chyfanswm nifer y ceisiadau a dderbyniwyd.

Caiff pob cais **datblygu gyrfa** ei asesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Galluoedd a photensial y gwneuthurwr/wyr ffilm, fel sy'n cael ei ddangos gan eu gwaith blaenorol a'u gweledigaeth greadigol;
- Pa mor eglur a chyraeddadwy yw'r cynllun a gyflwynwyd yn ogystal â'r effaith debygol ar yrfa'r gwneuthurwr/wyr ffilm a/neu ar gynnydd eu prosiect tuag at gynhyrchu.

Caiff pob cais **prosiect** ei asesu yn erbyn y meini prawf uchod a'r canlynol:

- Gwerth Cymreig y prosiect ar y sgrin, y tu ôl i'r camera a/neu i gynulleidfaoedd;
- Cryfderau'r tîm o wneuthurwyr ffilm;
- Cryfderau creadigol y prosiect;
- Hyfywedd y prosiect: a yw lefel eich amcangyfrif o gyllideb a'r awgrymiadau cyllido yn rhesymol a phriodol ar gyfer y prosiect hwn;
- Potensial y prosiect ac ymrwymiad y tîm i hybu ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant;
- Pa mor addas yw'r prosiect i dderbyn cymorth y Loteri Genedlaethol (gweler Atodiad 1);
- Cydbwysedd cyffredinol ein buddsoddiadau.

Bydd y broses asesu hefyd yn ystyried sut mae'r ymgeisydd/ymgeiswyr wedi rheoli unrhyw gyllid gan Ffilm Cymru yn flaenorol.

Caiff ymgeiswyr eu hysbysu a ydynt wedi'u dethol i dderbyn cyllid Gorwelion o fewn 8 wythnos i dderbyn eu cais.

## ADBORTH

Os yw eich cais yn aflwyddiannus, gallai Ffilm Cymru ddarparu adborth byr ar gais. Nid oes rheidrwydd ar yr ymgeisydd i weithredu ar yr adborth, ac nid yw gweithredu ar yr adborth hwn yn sicrhau y byddwch yn derbyn cyllid yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw adborth, neu os hoffech wneud cwyn, dilynwch y broses sydd wedi'i hamlinellu ar ein gwefan.

## AILGYFLWYNO

Ni ellir ailgyflwyno ceisiadau a wrthodwyd yn flaenorol heb gymeradwyaeth Ffilm Cymru ymlaen llaw. Dylai ceisiadau sy'n cael eu hailgyflwyno ddangos newidiadau gwirioneddol: er enghraifft, ailysgrifennu sylweddol neu newid cynhyrchydd.

Os ydych yn bodloni'r maen prawf hwn ac yn cyflwyno cais newydd am gyllid tuag at yr un prosiect, rhaid ichi nodi'n glir yr elfennau o'r prosiect sydd wedi'u diwygio yn y cais.

## BETH SY'N DIGWYDD PE CAIFF CYLLID EI DDYFARNU I MI?

Pe byddai eich cais yn llwyddiannus, yn y lle cyntaf byddwch yn derbyn llythyr yn cynnig cyllid yn swyddogol. Mae Ffilm Cymru yn cadw'r hawl i gynnig llai ichi na'r swm y gofynnwyd amdano neu addasu'r cyllid a ddyrannwn fesul eitem llinell mewn ymgynghoriad â chi.

Nid darparu cymorth ariannol yn unig a wna Ffilm Cymru. Rydym hefyd yn cynorthwyo â gwaith datblygu talent a phrosiectau yn greadigol a masnachol. O'r herwydd, bydd angen i ni dderbyn elfennau allweddol fel sgriptiau drafft a chytundebau ac yn aml byddwn yn darparu cymorth ar ffurf nodiadau a chyngor golygyddol. Dylech ganiatáu 4 wythnos o anfon unrhyw elfen atom er mwyn i'r swyddog gweithredol sydd â gofal eich prosiect ddarparu nodiadau ac adborth cyn cychwyn ran nesaf y gwaith.

# LLYTHYR O GYNNIG

Caiff eich dyfarniad ei gynnig fesul rhandaliad yn erbyn amcanion penodol o ran cychwyn a chyflawni.

Bydd eich llythyr o gynnig yn rhoi manylion y rhandaliadau hyn yn ogystal ag amserlen i gyflawni yn ei herbyn. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn cyflawni'n unol â'r dyddiadau hyn.

Fel arfer caiff eich dyfarniad ei dynnu'n ôl ar ôl 6 mis os na fyddwch wedi dechrau tynnu'r arian i lawr yn ystod y cyfnod hwnnw.

# CYTUNDEB CYLLIDO

Wedi i'ch llythyr o gynnig gael ei weithredu'n llawn, bydd gofyn ichi ymgymryd â chytundeb ffurf-hir â Ffilm Cymru sy'n gosod allan delerau ac amodau llawn eich cyllid o Gronfa Gorwelion.

Bydd yr amodau hyn yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Darparu Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasol eich cwmni, os yw'n berthnasol;
- Darparu manylion cyfri banc eich cwmni neu yn enw'r prosiect, yn hytrach na chyfri banc personol;
- Darparu unrhyw ddogfennau yswiriant sy'n ofynnol i gyflawni'r prosiect;
- Cadarnhad ysgrifenedig o unrhyw gyllid partneriaeth neu gyfraniad mewn nwyddau (os yw'n berthnasol);
- Cyfeirio'n briodol at RWYDWAITH BFI Cymru gan gynnwys logos Ffilm Cymru a'r Loteri Genedlaethol;
- Cymeradwyaeth Ffilm Cymru i bob elfen allweddol o'r prosiect gan gynnwys dogfennau cadwyn teitl neu glirio, a ffynonellau a symiau elfennau eraill o gyllid;
- Datgelu pob dogfen sydd eisoes yn ei lle mewn perthynas â'r prosiect a phob cost hanesyddol a gododd hyd hynny;
- Anfon unrhyw anfonebau sy'n dystiolaeth o wariant yn ôl y contract (os yw'n berthnasol);
- Telerau ad-dalu ar gyfer dyfarniadau 'prosiect';
- Darpariaethau Terfynu safonol.

# BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'M DYFARNIAD GAEL EI GWBLHAU?

Wedi i'r gwaith gael ei gwblhau, yn ôl cymorth eich dyfarniad, fe ddylech gynnal sgwrs gyda Rheolwr RHWYDWAITH BFI Cymru ynglŷn â'r camau nesaf. Gallai hyn gynnwys nodi'r angen am gamau pellach i ddatblygu gyrfa neu ddatblygu'r prosiect. Yn yr achos hwn, gallwn drafod cyfleoedd cyllido pellach a allai fod ar gael ichi yn Ffilm Cymru a thu hwnt yn ogystal â chamau y gallai fod angen chi eu cymryd yn annibynnol.

# AMODAU CYFFREDINOL CYLLID LOTERI FFILM CYMRU

1. Gall y wybodaeth yn y canllawiau hyn newid. Gall y gyfraith a rheoliadau'r Llywodraeth ynglŷn â rhannu arian y Loteri Genedlaethol newid hefyd. Mae Ffilm Cymru felly yn cadw'r hawl i adolygu'r cynllun cyllido hwn a/neu newid ei bolisïau, ei weithdrefnau a'r meini prawf asesu.
2. Nid yw'r ffurflen gais o anghenraid yn ymdrin â'r holl wybodaeth y mae Ffilm Cymru yn ei defnyddio i benderfynu pa geisiadau i'w cyllido. Gall Ffilm Cymru ofyn am ragor o wybodaeth gan ymgeiswyr.
3. Gwneir pob cais ar risg yr ymgeisydd ei hun. Ni fydd Ffilm Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golledion, niwed neu gostau a all godi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o:

   - y broses ymgeisio;

   - penderfyniad Ffilm Cymru i roi nawdd neu beidio a rhoi nawdd i ymgeisydd; neu

   - ymdrin â'r cais.
4. Gwiriwch eich ffurflen gais yn ofalus. Ni fydd Ffilm Cymru yn prosesu ceisiadau anghyflawn na cheisiadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn.
5. Mae penderfyniadau Ffilm Cymru ar geisiadau yn derfynol.
6. Ni fydd Ffilm Cymru yn rhyddhau unrhyw arian nes iddynt dderbyn copi llawn o'r cytundeb cyllido ar ffurf hir, ac unrhyw amodau sy'n gynsail i'r cytundeb sydd wedi'u bodloni neu eu hepgor gan Ffilm Cymru.
7. Bydd Ffilm Cymru yn cyhoeddi'r wybodaeth ynglŷn â nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, a'r dyfarniadau a wnaethpwyd. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys enw'r ymgeisydd llwyddiannus, swm y dyfarniad, enw'r prosiect a manylion y prosiect.
8. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl i'r cyhoedd ofyn am wybodaeth benodol a gadwyd mewn perthynas â'r ceisiadau a wneir i raglenni neu gynlluniau Loteri Genedlaethol Ffilm Cymru. Felly, os ydych yn dewis gwneud cais i Ffilm Cymru dylech fod yn ymwybodol y gellir datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei gyrru atom, naill ai'n rhannol neu'n gyfan, yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
9. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir i Ffilm Cymru yn cael ei thrin yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r holl ddarpariaethau cyfreithiol cysylltiedig sy'n ymwneud â diogelu data. Defnyddir y wybodaeth a ddarperir gennych i asesu eich prosiect, i gyflawni cytundeb cyllido gyda Ffilm Cymru, i adrodd i'n rhanddeiliaid a/neu i gydymffurfio â chyfraith ehangach. Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth a gedwir gan Ffilm Cymru yn y cofnodion. Mae gennych hefyd hawl i ofyn i Ffilm Cymru gywiro unrhyw beth sy'n anghywir yn eich gwybodaeth. Gallwch adolygu ein polisi Preifatrwydd fan hyn.
10. Bydd yr holl wybodaeth bersonol a sensitif a ddarperir i Ffilm Cymru, ffurflenni monitro amrywiaeth er enghraifft, yn cael eu cadw mewn fformat anhysbys ar gyfrifiadur am ddwy flynedd, a gellir ei defnyddio at ddibenion ystadegol wedi hynny.
11. Mae gan Ffilm Cymru'r hawl i wrthod neu adennill unrhyw arian os y llenwyd y cais yn anonest, neu gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n anghywir neu'n gamarweiniol am y sefydliad neu'r prosiect, boed yn fwriadol neu'n ddamweiniol; a/neu os yw'r sawl sy'n derbyn arian gennym yn gweithredu'n anonest neu'n esgeulus gan roi'r prosiect dan anfantais. Bydd Ffilm Cymru yn dilyn achosion o amheuaeth o dwyll ac yn trosglwyddo gwybodaeth i'r heddlu.
12. Mae'n ofynnol gan Ffilm Cymru bod unrhyw fesurau a gymerir gan ymgeiswyr i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn cydymffurfio'n llwyr â Deddf Cydraddoldeb 2010.
13. Ni fydd apeliadau ffurfiol yn erbyn y penderfyniad terfynol yn cael eu hystyried oni bai bod gan yr ymgeisydd achos da i gredu na lynwyd at y gweithdrefnau cywir ar gyfer prosesu'r cais, neu iddynt gael eu gweithredu mewn modd a oedd yn anfanteisiol i ganlyniad y cais. Mae copi o'n Gweithdrefn Adborth a Chwynion i'w gweld ar ein gwefan.
14. Rhaid i unrhyw wrthdaro o ran buddiannau gael eu datgan gan ymgeiswyr yn eu cais – mae'n rhaid hysbysu Ffilm Cymru, er enghraifft, os oes aelod o staff yn ymwneud â chwmni neu un o'i brosiectau.
15. Mae Ffilm Cymru yn gofyn i bob un o'i bartneriaid a phawb sy'n derbyn cyllid ganddynt amlygu cyfraniad y Loteri Genedlaethol drwy hyrwyddo ac arddangos logo'r Loteri Genedlaethol, ynghyd â logo Ffilm Cymru, a thrwy gydnabyddiaeth ysgrifenedig a llafar a gytunwyd arno.

# ATODIAD 1

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (Diwygiwyd ym 1998) yn amlinellu'r meini prawf allweddol i'w hystyried wrth drafod ceisiadau am gyllid. Mae Ffilm Cymru Wales yn dehongli'r rhain fel a ganlyn:

## ANSAWDD ARTISTIG

Mae Ffilm Cymru yn ceisio cefnogi creu ffilmiau gwreiddiol a dramatig.

## BUDD CYHOEDDUS

Gellir cyflawni hyn drwy wneud y deunydd sinematig a ddarperir fod yn fwy amrywiol; rhoi proffil i dalent newydd, neu wella cynrychiolaeth cymunedau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol, er enghraifft.

## DATBLYGIADAU NEWYDD

Ni chaniateir amnewid arian y Loteri. Hynny yw, ni ddylai gymryd lle ffynonellau ariannol eraill sydd ar gael ar gyfer unrhyw brosiect penodol. Yn hytrach, gellir ei ddefnyddio i ddenu buddsoddiad pellach i brosiectau. Gellir defnyddio ein harian mewn partneriaeth â chyllidwyr Loteri eraill, yn amodol ar gydymffurfio â chap de minimis Cymorth Gwladwriaethol.

## HYFYWEDD ARIANNOL

Byddwn yn ystyried hyfywedd ariannol y prosiect a chydnawsedd y gwahanol elfennau ariannol â thelerau nawdd y Loteri. Bydd angen i'r ceisiadau feddu ar gyllidebau sy'n addas ar gyfer cynulleidfa darged y prosiect, a'r farchnad derfynol.

## CYLLID PARTNERIAETH

Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos cadarnhad ysgrifenedig o gyllid partneriaeth a manylion y telerau ac amodau. Nid yw'n debygol y bydd cyllid cynhyrchu yn cael ei gynnig os nad oes elfen o gyllid partneriaeth eisoes yn ei le.

## GALW AMLWG

Mae Ffilm Cymru yn ceisio cefnogi prosiectau ffilm sy'n dangos eu bod yn debygol o gael eu dosbarthu. Nid yw prosiectau sy'n annhebygol o gael eu dosbarthu yn debygol o fod o fudd i'r cyhoedd, ac felly ni fyddant yn cyrraedd meini prawf cyllid y Loteri. Mae Ffilm Cymru yn ceisio cefnogi amrywiaeth eang o ffilmiau o ran genres a chyllidebau, ond ym mhob achos dylai'r prosiectau feddu ar gyllidebau addas i adlewyrchu'r potensial tebygol o ran cynulleidfa. Bydd disgwyl i ymgeiswyr gynnwys ffigurau gwerthu, wedi'u cyflenwi gan asiantaeth werthu brofiadol a/neu dystiolaeth o ddiddordeb gan Ddosbarthwyr Prydeinig.

## RHEOLAETH EFFEITHIOL

Mae Ffilm Cymru yn gyfrifol am wariant arian cyhoeddus, ac felly rhaid i'r corff ei fodloni ei hun bod yr ymgeisydd yn debygol o drosglwyddo'r gwaith yn unol â'r gyllideb a'r amserlen, gan ddefnyddio'r arian ar gyfer y diben a fwriadwyd.

ffilm
CYMRU WALES

UNIT 6
TRAMSHED TECH
PENDYRIS STREET
CARDIFF CF11 6BH

+44(0)2921 679369
enquiries@ffilmcymruwales.com
www.ffilmcymruwales.com

THE NATIONAL LOTTERY®
BFI NETWORK

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government